# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **07/11/2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2020-23** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Catrin M S. Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

**Cyflwyniad**
Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wrth ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion.

Dyma'r adroddiad olaf am y 'Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi' sy'n dod i ben fel strategaeth ar wahân. Wrth symud ymlaen, cytunwyd y byddai is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn fater trawsbynciol ar draws yr holl feysydd gwaith wrth gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28. Mae cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i'n helpu ni i gyflawni hyn.

Roedd tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion 2020-2023 fel a ganlyn:

1. Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, dod i ddeall effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.

2. Cydlynu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.

3. Nodi bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Rydym wedi cyflawni amcanion y Strategaeth. Mae'r is-grŵp Tlodi wedi cyfarfod yn rheolaidd ac mae wedi trafod ystod eang o faterion i'n helpu i ddeall effaith caledi ar bobl Ceredigion. Mae'r dangosfyrddau data a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith hwn yn

cael eu defnyddio'n eang gan bartneriaid ac maent wedi'u cydnabod ledled Cymru fel enghraifft o arfer da.

Mae cynllun gweithredu'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi a'r adroddiadau rheolaidd wedi ein helpu i gydlynu ein camau gweithredu. Mae'r dudalen Costau Byw ar wefan y Cyngor a'r daflen Costau Byw, a bostiwyd i holl godau post Ceredigion yn ystod gaeaf 2022, wedi bod o gymorth i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael.

Mae'r bylchau mewn cymorth wedi'u nodi ac, er nad oeddem yn gallu mynd i'r afael â phob un o'r rhain, rydym wedi gallu ymateb i rai ohonynt, e.e. sefydlwyd rhwydwaith o 54 o Fannau Croeso Cynnes a oedd yn cynnig lle cynnes a chyfeillgar i gymunedau ddod at ei gilydd yn ystod gaeaf 2022.

Mae'r adroddiad llawn am y cyfnod rhwng Mawrth 2022 ac Ebrill 2023 ynghlwm.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Nac oes, adroddiad cynnydd yw hwn ac nid yw'n ymwneud â newid mewn polisi / gwasanaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**
**I dderbyn Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23.**

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**
**Mae'r adroddiad yn ddisgrifiad cywir o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar drigolion Ceredigion.**

**<u>Trosolwg a Chraffu:</u>**
Ystyriwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19/10/23.

**<u>Fframwaith Polisi:</u>**
Strategaeth Mynd i'r Afael a Chaledi 2020-2023

**<u>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</u>**
Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

**<u>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</u>**
O fewn y gyllideb bresennol.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
Dim

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(iau):**
Risg o beidio a chydymffurfio os na chaiff y Strategaeth hon ei datblygu a'i chymeradwyo

**Pwerau Statudol:**
Mae Adran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
Atodiad 1- Adroddiad blynyddol y strategaeth Mynd i'r Afael a Chaledi BGC Ceredigion 2022-23

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**Swyddog Adrodd:**
Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Polisi a Perfformiad

**Dyddiad:**
16/10/2023

Atodiad 1



# STRATEGAETH MYND I'R AFAEL Â CHALEDI CEREDIGION 2020 - 2023

# ADRODDIAD CYNNYDD

# MAWRTH 2023

## Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 3

**Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010** ... 4

**Colofn 1: Costau Byw Hanfodol** ... 5

**Colofn 2: Llesiant Corfforol ac Emosiynol** ... 8

**Colofn 3: Cymunedau Cydnerth** ... 10

**Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym - a ydym wedi gwneud gwahaniaeth?** ... 13

- **Credyd Cynhwysol** ... 13
- **Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau** ... 14
- **Cyflogaeth Ieuenctid** ... 14
- **Enillion Blynyddol Canolrifol yn ôl Cartref a Gweithle** ... 15
- **Llesiant Corfforol ac Emosiynol** ... 15

**Tlodi Plant** ... 15

**Y Casgliad a'r Heriau sy'n Parhau** ... 16

**Y Camau Nesaf** ... 17

**Atodiad A: Y Partneriaid sy'n Cyfrannu** ... 18

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion yn sgil Covid-19 ac, yn fwy diweddar, y cynnydd mewn costau byw. Mae'n amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn 2022-23 i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl i'r rhai hynny sy'n wynebu caledi.

Dyma'r adroddiad blynyddol olaf ynghylch Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-23. Ers mis Ebrill 2023, mae mynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion yn un o themâu trawsbynciol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2023-28.  Bydd y dull newydd hwn o weithredu yn golygu y bydd modd i bob agwedd ar raglen waith y Bwrdd dros y bum mlynedd nesaf ganolbwyntio ar dlodi.

Mae tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion fel a ganlyn:

- Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, **dod i ddeall** effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.
- Cydlynu ac **atgyfnerthu gwaith ar y cyd** ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.
- Nodi **bylchau** o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Mae amrywiaeth o bartneriaid a thimau yn y sector cyhoeddus yn cyflawni'r gwaith a nodir yn y cynllun gweithredu a gallwch chi weld rhestr ohonynt yn Atodiad A.
Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 3 colofn ar wahân:

1 COSTAU BYW HANFODOL
*(Help ar gyfer y rhai hynny sy'n wynebu caledi ariannol)*

2 LLESIANT CORFFOROL AC EMOSIYNOL
*(Cymorth i'r rhai hynny sy'n wynebu blinder, straen a gorbryder)*

3 CYMUNEDAU CYDNERTH
*(Sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau)*

Hoffem gydnabod yr ymrwymiad a'r gefnogaeth y mae cydweithwyr a phartneriaid wedi'u dangos, a hoffem ddiolch iddynt am barhau i gydnabod pwysigrwydd cydweithio er mwyn mynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Adran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Y nodau cyffredinol i gyfrannu at ddileu tlodi yw:

- cynyddu incwm i aelwydydd sy'n cynnwys plant.
- sicrhau nad yw plant wedi'u hamddifadu'n sylweddol.
- hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni plant.
- darparu i rieni plant y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth am dâl.
- lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant.
- cefnogi rhianta plant.
- lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant.
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny mewn tai gweddus.
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny mewn cymunedau diogel a chydlynus
- lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant.
- cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant.
- cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth.
- cynorthwyo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Nod y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi yw mynd i'r afael â'r nodau hyn. Mae'r cynnydd a wneir yn cael ei fonitro gan Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant. Mae'r Fforwm hwn yn cwrdd wythnos cyn cyfarfodydd Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y gall uwchgyfeirio unrhyw faterion sy'n codi i'r Is-grŵp Tlodi ar unwaith.

## Colofn 1: Costau Byw Hanfodol

Cafodd cymorth ariannol ei gynnig yn uniongyrchol i deuluoedd ac unigolion a oedd yn ei chael hi'n anodd. Roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o gymorth o ran hyfforddiant a chyflogaeth, ond o ystyried y costau byw cynyddol, canolbwyntiwyd ar sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth yr oedd ganddynt hawl iddo. Mae'r adran isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r gwaith hwn.

### Porth Cymorth Cynnar: Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar

Bu'r tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn gweithio gyda 3,171 o bobl yn 2022-23. Cynigiwyd sesiynau 'galw heibio' ychwanegol gan y Cysylltwyr Cymunedol mewn mwy o lefydd ar draws y Sir fel y gallai mwy o bobl gael gafael ar gyngor a chefnogaeth.

Dosbarthodd y Cysylltwyr Cymunedol 300 o stribedi atal drafft, 1,500 metr o ffoil sy'n adlewyrchu'r gwres a ddaw o reiddiaduron, 60 o fylbiau hir oes ar gyfer arbed ynni, 50 o blancedi a 900 o becynnau o hadau.

### Y Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ar gyfartaledd, roedd y ceisiadau newydd ar gyfer hawlio Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu prosesu o fewn 19 diwrnod. Mae 5,482 o bobl yn derbyn y budd-daliadau hyn ar hyn o bryd.

Cafodd 7,547 o daliadau o dan Gynllun Tanwydd y Gaeaf a 21,367 o daliadau o dan y cynllun Costau Byw eu gwneud i gartrefi sy'n gyfanswm o £4.7 miliwn. Rhoddwyd gwerth £322,971 o Daliadau Tai Dewisol i'w cynorthwyo â'u costau rhent a diogelu eu tenantiaethau yn ystod 2022-23.

### Porth Gofal: Gwasanaethau Tai

Dywedodd 12% o'r bobl a ddaeth i gysylltiad â'r Tîm Digartrefedd mai 'Pryderon Ariannol' oedd un o'u rhesymau dros ofyn am gymorth. Llwyddwyd i atal 67% o'r aelwydydd a gefnogwyd gan y tîm rhag bod yn ddigartref.

Ym mis Hydref 2022, lansiwyd y cynllun ECO4, a oedd wedi'i anelu at aelwydydd incwm isel, unigolion bregus a'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd am nad oedd eu cartrefi yn effeithlon o ran ynni.

Er y bu cynnydd sylweddol yn y gyllideb i ddarparu tai cymdeithasol fforddiadwy, bu hefyd anawsterau wrth chwilio am gontractwyr i wneud y gwaith. Mae pryderon hefyd y bydd effaith y ffosffadau yn afon Teifi yn golygu y bydd oedi o ran ceisiadau cynllunio newydd.

### Y Gymdeithas Gofal

Mae chwyddiant a phrisiau ynni yn achosi pryderon newydd i denantiaid bregus sydd angen cefnogaeth. Mae'r ffaith nad yw pobl yn ymwybodol o gynlluniau i'w cynorthwyo â'u costau byw yn broblem fawr. Mae diffyg llety fforddiadwy yng Ngheredigion yn creu problemau i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n chwilio am

opsiynau wrth iddynt adael llety dros dro neu lety argyfwng. Mae’r Ddeddf Rhentu Cartrefi sy’n ddeddfwriaeth newydd wedi cymhlethu'r materion hyn ymhellach.

### Area 43

Mae Caffi Ieuenctid Area 43 sef Depot bellach ar agor yn Aberteifi. Yn y fan hon, gall pobl ifanc gael gafael ar fwyd a lluniaeth am bris rhatach. Mae lleoliadau sy’n cynnig cyflogaeth am dâl ar gael yn ogystal â hyfforddiant am ddim i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed mewn amrywiol feysydd gan gynnwys paratoi bwyd, maeth, cyrsiau hylendid bwyd ac addysg bersonol a chymdeithasol mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Darperir cefnogaeth rithwir a chefnogaeth wyneb yn wyneb lle gall pobl Ifanc gael cymorth i gyllidebu, help i wneud y mwyaf o'u hincwm, gwybodaeth a fydd yn eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol, cefnogaeth o ran gwneud ceisiadau am grantiau caledi, sgiliau byw'n annibynnol a chymorth i sicrhau cyflogaeth. Cafodd 399 o bobl ifanc a oedd yn wynebu caledi ariannol eu cefnogi yn 2022-23.

### Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion

Cefnogodd y rhwydwaith 860 o deuluoedd. Cyfeiriwyd 188 o deuluoedd at eraill am gymorth pellach lle cawsant fwndeli i fabanod, pecynnau dillad, bwyd a llyfrau am ddim. Hefyd, cawsant gyngor gan y cynllun cartrefi cynnes NYTH, Home Start, Cymorth ar y Fron, Cymorth ar Bopeth, Dŵr Cymru, Gofalwyr CREDU, Y Tîm o Amgylch y Teulu, Ymwelwyr Iechyd a Mind.

Roedd Mannau Croeso Cynnes ar gael ym mhob un o'r chwe chanolfan lle’r oedd bwyd/byrbrydau poeth yn cael eu darparu. Gwnaeth 177 o deuluoedd yn ogystal ag unigolion eraill o'r gymuned ehangach elwa o’r ddarpariaeth hon.

### Ysgolion

Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd ym mis Chwefror 2023. Mae’r Strategaeth hon yn cynnig arweiniad i ysgolion sy'n cefnogi pobl ifanc dan anfantais ac mae’n cyd-fynd â’r gwaith ehangach sy’n cael ei wneud i roi mwy o gefnogaeth i’n dysgwyr mwy difreintiedig.  Mae neges allweddol wrth wraidd hyn – yn aml, mae angen mwy o gefnogaeth ar ddysgwyr difreintiedig i gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

### Gofal Plant

Mae'r sefyllfa bresennol yn parhau i effeithio ar y sector. Mae’r costau ynni yn uchel ac nid oes darpariaeth o ran clybiau ar ôl ysgol ym Mhenparcau nac yn Aberteifi oherwydd materion recriwtio. Mae darpariaeth fel hyn yn hanfodol i rieni sy'n dymuno cael mynediad i gyflogaeth a hyfforddiant. Mae nifer y llefydd gofal plant cofrestredig wedi gostwng 158 o lefydd dros y 12 mis diwethaf.

Fodd bynnag, mae gofal plant am ddim ar gael i blant rhwng 2 a 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a bydd hyn yn awr yn cael ei ymestyn i fwy o ardaloedd. Cafodd 90 o blant ychwanegol fudd o ddarpariaeth Allgymorth Dechrau'n Deg a gwnaeth 354 o blant elwa o'r Cynnig Gofal Plant.

### Hyfforddiant a chyflogaeth

Mae’r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Gwasanaeth Ieuenctid, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i gyd yn aelodau o'r panel NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Cynigiwyd sesiynau blasu mewn gwahanol leoliadau gan gynnwys sesiynau gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymio. Enillodd 64% o'r dysgwyr a gefnogir gan y Porth Cymorth Cynnar gymwysterau ar ôl gwneud hyfforddeiaethau ac enillodd 70% o ddysgwyr gymwysterau ar ôl gwneud prentisiaethau.

Mae gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith bellach yn gwbl weithredol ac mae Hyfforddwyr Gwaith yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb ar bob safle.

### Cyngor ar Bopeth

Mae apwyntiadau un-i-un ar gyfer cleientiaid sy'n gofyn am gyngor manwl drwy alwadau ffôn a galwadau fideo yn parhau. Mae apwyntiadau personol ar gael yn y Borth, Aberystwyth, Penparcau, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi.

Yn dilyn cais llwyddiannus i'r Loteri Genedlaethol, cynyddodd Cyngor ar Bopeth eu darpariaeth wyneb yn wyneb mewn mannau ledled y sir gan gynnwys sesiynau galw heibio rheolaidd yn ogystal â digwyddiadau pwrpasol ar gyfer grwpiau cymunedol a sesiynau galw heibio dros Zoom. Y dymuniad yw medru cynnig cymorth trwy fideo-gynadledda i gleientiaid bregus sy'n gaeth i'w cartrefi, ond nid ydynt eto wedi gallu gwneud hyn gan fod angen cymorth ar y cleientiaid yn eu cartrefi ac nid yw hyn ar gael.

### Age Cymru Dyfed

Mae dau Swyddog Gwybodaeth a Chyngor rhan-amser, sydd wedi'u lleoli yn Aberystwyth, yn cynnig cymorth a chyngor i bobl i weld a ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau llesiant ac maent yn dangos sut y gallant gael mynediad atynt. Hefyd, maent yn cynnig Gwasanaeth Cymorth Dementia penodol y mae modd i bobl gael mynediad ato trwy Wasanaeth Cymorth Tai'r Cyngor. Mae apwyntiadau ar gael yn y swyddfa, yn rhithiol a thros y ffôn. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir trefnu ymweliadau â’r cartref. Mae’r staff yn canfod nad yw'r genhedlaeth y maen nhw'n ei chefnogi yn codi llais nac yn cwyno. Serch hynny, mae mawr angen help arnynt fel y gallant fyw bywydau cyfforddus a phleserus.

Ers mis Ebrill 2022 mae'r tîm wedi delio â dros 690 o atgyfeiriadau gan gynorthwyo trigolion Ceredigion i gael mynediad at oddeutu £760,000 o Gymorth Lles nad oedd wedi’i hawlio.

## Colofn 2: Llesiant Corfforol ac Emosiynol

Cynigiwyd cymorth o ran llesiant corfforol ac emosiynol i deuluoedd ac unigolion a allai fod yn wynebu straen, blinder a phryder. Roedd hyn yn cynnwys camau ataliol, megis dosbarthiadau ymarfer corff, cyfarfodydd cymunedol, seibiant ar gyfer Gofalwyr di-dâl, yn ogystal â chynlluniau hirdymor ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

### Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion

Mwynhaodd 860 o deuluoedd amrywiaeth o weithgareddau gyda'r nod o wella llesiant corfforol ac emosiynol. Roedd y rhain yn cynnwys chwarae blêr, chwarae synhwyraidd, zwmbini, sesiynau coginio, garddio, digwyddiadau pontio'r cenedlaethau, celf gymunedol, ysgol theatr, chwarae awyr agored, celf a chrefft a barbeciws. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch Diogelu, Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad ac Iechyd Meddwl Cymorth Cyntaf.

### DASH Ceredigion

Mae DASH yn cynnig cyfleoedd o ran gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant/pobl ifanc anabl yn ogystal â rhoi seibiant i deuluoedd. Gan fod prinder darpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol yn ystod y pandemig, cafwyd gostyngiad mawr yn y defnydd a wnaed o'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chynnig. Mae cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol a phenwythnosau i ffwrdd bellach ar gael ond mae'r ceisiadau a ddaw oddi wrth glybiau y tu allan i'r ysgol am gymorth 'help llaw' drwy'r cynllun Ymuno yn parhau'n isel.

### Porth Cymorth Cynnar: Cymorth ac Atal

Cynigiwyd 88 o weithdai i bobl ifanc 16 oed a throsodd. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys gwirfoddoli yn y gymuned, bowlio dan do, garddio a diwylliant a threftadaeth Cymru.

Gwnaeth llesiant a hyder 125 o bobl ifanc a oedd yn gweithio gyda gweithiwr ieuenctid wella. Un enghraifft o hyn oedd person ifanc nad oedd yn barod i adael ei gartref a aeth ar daith gerdded llesiant gyda gweithiwr ieuenctid.

Gwnaeth y ddarpariaeth ieuenctid symudol ymgysylltu â 10 cymuned a 176 o bobl ifanc. Darparwyd sesiynau pêl-droed wythnosol am ddim ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys a Sefydliad Pêl-droed Abertawe. Yn sgil hyn, cafodd un person ifanc ei enwebu'n llysgennad ifanc oherwydd ei ymrwymiad.

### Area 43

Comisiynodd clystyrau meddygon teulu gogledd a de Ceredigion wasanaeth cwnsela ar gyfer pobl ifanc rhwng 13 a 30 oed. Defnyddiodd 193 o bobl ifanc yng ngogledd Ceredigion a 6 o bobl ifanc yn ne Ceredigion y gwasanaeth yn ystod 2022-23. Nid yw'r gwasanaeth hwn bellach yn cael ei ariannu ac mae wedi dod i ben.

Hefyd, gwnaeth Area 43 ddarparu gwasanaeth cymorth emosiynol i 57 o bobl ifanc o'u canolfan yn Aberteifi.

## Porth Cymorth Cynnar, Canolfannau Lles

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) bellach yn brysur iawn - derbyniwyd 1,011 o atgyfeiriadau yn 2022-23. Rhoddir sylw i bob atgyfeiriad, er nad yw pob preswylydd yn penderfynu cymryd rhan. Cwblhaodd 343 o gleientiaid y rhaglen 16 wythnos yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynllun hwn yn un o nifer o ddosbarthiadau a gweithgareddau ymyrraeth iechyd a gynigir. Mae'r ddarpariaeth arall yn cynnwys Teithiau Cerdded a 'Fit4Life'. Cynigiwyd 424 o ddosbarthiadau a gweithgareddau bob mis yng ngogledd, canol a de'r sir. Mae'r cleientiaid ledled Ceredigion wrth eu bodd â'r holl raglenni.

## Porth Gofal

Roedd y tîm Therapi Galwedigaethol yn gobeithio cynnal mwy o asesiadau fel y gellid darparu cyfarpar priodol a chymorth therapi i bobl. Mae hyn yn lleihau'r pwysau ar y Gofalwr di-dâl gan fod y sawl sy'n derbyn gofal yn dod yn fwy annibynnol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran staffio sydd wedi arwain at restr aros.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Porth Cymorth Cynnar: cefnogaeth i ofalwyr

Ymatebodd y tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol i 3,538 o ymholiadau. Roedd yr ymholiadau hyn yn cynnwys ceisiadau am gymorth, ceisiadau am daliadau Llywodraeth Cymru i ofalwyr di-dâl sydd ar incwm isel a chardiau Gofalwyr Ceredigion sy'n caniatáu i ofalwyr di-dâl fod yn aelodau am ddim o ganolfannau hamdden ac i gael gostyngiadau ledled Ceredigion.

Yn ogystal â hyn, deliodd y tîm â 621 o geisiadau am gyllid o'r gronfa Gofalwyr. Roedd 1,970 o Ofalwyr di-dâl wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ym mis Mawrth 2023.

## Porth Cynnal – Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae'r capasiti o ran Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy wedi cynyddu ond nid yw'r tîm gwaith cymdeithasol yn llawn eto. Mae'r capasiti o ran cwnsela mewn ysgolion wedi cynyddu ond mae'r galw yn uchel. Mae'r tîm Camddefnyddio Sylweddau hefyd wedi tyfu ac mae gan y tîm bellach 2 weithiwr newydd sy'n targedu digartrefedd a materion sy'n codi'n gyson. Bydd y timau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cael eu hintegreiddio ym mis Ebrill 2023.

## Polisi a Pherfformiad

Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ym mis Awst 2022. Mae'r Asesiad wedi dweud llawer wrthym am lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Ngheredigion. Bydd yr Asesiad yn awr yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 a gall sefydliadau gyfeirio ato wrth baratoi ceisiadau am gyllid neu ei ddefnyddio i ddangos bod angen canolbwyntio ar feysydd penodol.

### Fforwm Cymunedol Penparcau – yr Hwb

Mae'r Hwb yn gobeithio denu mwy o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith o ddosbarthu parseli bwyd ac i wneud gweithgareddau ehangach megis garddio a chasglu sbwriel. Yn ystod y pandemig, roedd parseli bwyd yn cael eu dosbarthu bob dydd ond erbyn hyn maent yn cael eu dosbarthu bob wythnos. Mae'r Hwb hefyd yn cynnig gwasanaeth Pryd ar Glud. Mae'r gwaith hwn yn helpu'r cydlynydd i ddod i adnabod pobl yn well.

Mae rhai pobl yn parhau i deimlo'n ynysig. Nid yw rhai yn bwyta'n iawn neu nid oes ganddynt y cyfleusterau i goginio. Cynhaliwyd ymgynghoriad ym mis Ionawr / mis Chwefror er mwyn adolygu'r gwasanaethau a gynigir. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn cais newydd am gyllid ac mae'n debygol y bydd y cais hwn yn canolbwyntio ar lesiant meddyliol a mynd i'r afael ag unigrwydd.

### Coleg Ceredigion

Gall dysgwyr gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth personol, gan gynnwys mentora, cwnsela, a chymorth 24/7. Mae'r systemau ar-lein ar gyfer cymorth personol bellach wedi'u cynnwys yn rhaglen y coleg a bydd hyn yn hyrwyddo llesiant y dysgwyr.

### Age Cymru Dyfed

Mae'r Prosiect Befriending Life Links a'r Gwasanaeth Cymorth i Gyn-filwyr yn cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig. Mae Befriending Life Links yn helpu pobl i feithrin hyder ac ailymuno â'u cymunedau. Hefyd, mae'n helpu i ffurfio Grwpiau Cymdeithasol yn lleol ond mae'n camu'n ôl wedi iddynt gael eu sefydlu. Mae'r swyddogion sy'n cynnig cymorth i gyn-filwyr yn darparu cefnogaeth un i un i gyn-filwyr oedrannus ar draws y sir.

## Colofn 3: Cymunedau Cydnerth

Yn 2022-23, dechreuodd y byd ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd ar ôl Covid wrth i wasanaethau fynd yn ôl i ddarparu cefnogaeth wyneb yn wyneb yn bennaf. Fodd bynnag, mae pawb bellach yn dibynnu mwy ar gysylltedd digidol ond ni all pawb gael mynediad at hyn. Mae'r adran isod yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith a wneir i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

### Porth Cymorth Cynnar: Ymyrraeth Gynnar a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

Yn ystod y pandemig, datblygwyd rhestrau i nodi'r gefnogaeth gymunedol a oedd ar gael ar draws y sir gyfan a bu hyn o gymorth i nodi'r ardaloedd lle nad oedd cefnogaeth yn bodoli. Mae'r cymorth a gynigir yn newid yn gyflym ac mae pobl bellach yn cael eu hannog i ddefnyddio Dewis Cymru ac 'Infoengine' i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael. Ym mis Mawrth 2023, roedd gan Dewis 543 o

ddefnyddwyr cofrestredig yng Ngheredigion ac roedd 607 o adnoddau ar gael ar draws y Sir.

Yng Ngheredigion, ceir 6 banc bwyd a 2 grŵp sy’n darparu bwyd sydd dros ben ac mae modd i 98.9% o gartrefi’r sir fynd at y ddarpariaeth hon. Yr unig wardiau Cyngor Cymuned nad oes ganddynt fynediad at fanciau bwyd yn lleol yw Llandyfrïog, Llanddewi Brefi, Tregaron ac Ystrad Fflur. Llwyddodd y banciau bwyd i ymdopi â'r galw cynyddol yn ystod y flwyddyn ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr.

**Cyswllt Cwsmeriaid Cyngor Sir Ceredigion**

Mae llyfrgelloedd Ceredigion bellach wedi ailagor yn llawn, ac mae'r llyfrgell deithiol yn ôl ar y ffordd. Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu mynediad i I-pads ar bob fan llyfrgell deithiol, ond nid yw hyn ar gael eto. Ailagorwyd y safleoedd gwasanaethau cwsmeriaid wyneb yn wyneb ym mis Ionawr 2023 am 5 diwrnod yr wythnos ond mae amseroedd agor y gwasanaeth ychydig yn hwyrach. Ddiwedd mis Mawrth 2023, nid oedd cyfleuster ar gael i dderbyn taliadau arian parod wyneb yn wyneb yn swyddfeydd y Cyngor. Serch hynny, roedd preswylwyr yn gallu parhau i wneud taliadau arian parod ym mhob Swyddfa Bost ac mewn siopau lle ceir ‘Payzone’.

**Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion**

Er bod dal angen gwella cyflymder y rhyngrwyd a sicrhau signal ffôn mwy dibynadwy mewn rhai ardaloedd gwledig, nid oes neb heb y rhyngrwyd o gwbl. Mae’r ddarpariaeth wyneb yn wyneb bellach ar gael ond mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod rhan annatod o gyfathrebu ag eraill. Mae’r teuluoedd yn ymateb yn dda i hyn ac maent yn cadw mewn cysylltiad â'i gilydd trwy sgyrsiau grŵp gan ddarparu cefnogaeth dda i’w gilydd. Hefyd, gallant anfon negeseuon yn unigol at y staff er mwyn cael cymorth.

Mae'r holl staff yn datblygu sgiliau digidol newydd yn barhaus, ac mae rhai wedi cael mynediad at hyfforddiant ffurfiol i gynyddu eu gwybodaeth yn y maes hwn.

**Bwrdd Iechyd Hywel Dda: Partneriaethau, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Roedd y tîm Allgymorth Cymunedol wedi cysylltu â 5,259 o bobl. Roedd mwy na 50% o'r sgyrsiau yn ymwneud â mesurau atal, llesiant, atgyfeiriadau i roi'r gorau i ysmygu, cyngor am faeth a defnyddio gwasanaethau sgrinio. Bu’r tîm hefyd yn cynorthwyo 538 o ffoaduriaid o Wcráin, 229 o unigolion sy’n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a 370 o bobl a oedd yn ddigartref neu mewn sefyllfa fregus o ran eu cartref.

Bu iddynt hefyd weithio gyda grwpiau cymunedol i sefydlu teithiau cerdded llesiant lleol ar gyfer ein cymunedau amrywiol fel y gallent wneud ymarfer corff, creu cyfeillgarwch ac ymwneud â'r bwrdd iechyd mewn ffordd anffurfiol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth 164 o bobl gymryd rhan.

**Porth Cymorth Cynnar: Llesiant a Dysgu Cymunedol**

Mae Dysgu Bro yn darparu cyrsiau mewn mwy o leoliadau cymunedol, gan gynnwys Bronant, Rhydypennau, Cwmystwyth a Phontarfynach. Mae llawer o'r sesiynau yn rhad ac am ddim. Mae offer TGCh ar gael i bob dysgwr newydd.

**Y Gymdeithas Gofal**

Mae Cymdeithas Gofal Cymru yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru/ CWMPAS gyda'r nod o fynd i'r afael ag allgáu digidol yn lleol a gwella hyder digidol trwy hyfforddiant sgiliau hanfodol a sesiynau diogelwch ar-lein. Mae cysylltedd yn parhau'n broblem ond trwy ddatblygu hybiau, fel Canolfan Dulais yn Llanbedr Pont Steffan, gall pobl ddefnyddio cyfrifiaduron a mynd ar-lein.

**Fforwm Cymunedol Penparcau**

Mae rhai pobl yn ymweld â'r Hwb ym Mhenparcau i ddefnyddio'r Wi-Fi sydd am ddim neu i ofyn am help gyda'u ffonau a'u tabledi. Mae'r Fforwm yn gweithio gydag Age Cymru Dyfed sy'n rhoi benthyg tabledi i'r rhai sydd eu hangen ac yn cynnig sesiynau cyngor ar-lein. Mae'r Fforwm yn darparu'r lleoliad ar eu cyfer ac yn hyrwyddo'r gwasanaeth ar eu rhan.

**Age Cymru Dyfed**

Yn sgil gyllid gan CAVO, ac yn fwy diweddar Sefydliad Santander, mae'r tîm yn gweithio gyda phartneriaid megis Hwb Penparcau i annog pobl i fynd ar-lein ac i ddysgu sgiliau digidol. Hefyd, trwy Santander, rhoddir gwybodaeth iddynt ynghylch cael mynediad at wasanaethau bancio / siopa ar-lein a'r gwasanaethau cymharu prisiau. Mae'r staff a'r tîm o wirfoddolwyr ymroddedig yn cynnig y cymorth hwn dros y ffôn, yn rhithiol, trwy ymweld â chartrefi a thrwy gynnal gweithgareddau grŵp.

**Twf Canolbarth Cymru - Datblygiadau Digidol**

Mae lefelau cysylltedd band eang yng nghanolbarth Cymru wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, ond mae lefel gyffredinol y cysylltedd yn dal yn is na rhai rhannau o Gymru a'r Deyrnas Unedig. Mae gan oddeutu 90% o adeiladau yng nghanolbarth Cymru y gallu i gysylltu â Band Eang Cyflym Iawn (30Mbps+). Mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfartaledd ar gyfer Cymru (97.1%) a'r Deyrnas Unedig (97.6%).

Bu cynnydd yn y nifer sy'n gallu derbyn cyflymder uwch yng nghanolbarth Cymru. Mae tua 40% o'r rhanbarth bellach yn medru cael mynediad at Fand Eang Cyflym Iawn (100mbps+). Er hynny, mae'r ffigwr hwn lawer yn is na'r ffigwr ar gyfartaledd ar gyfer Cymru (63.2%) a'r Deyrnas Unedig (76.25%).

Nid yw 7% o adeiladau yng nghanolbarth Cymru yn medru cael mynediad at gysylltiad sy'n fwy na 10Mbps. Mae hyn yn cymharu â ffigwr o 2% ar gyfer Cymru ac 1.8% ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd mai Openreach oedd prif ddarparwr y gwasanaethau seilwaith band eang ac maent wedi canolbwyntio ar y gwasanaethau ffeibr. Mewn ardaloedd eraill, mae gwahanol ddarparwyr yn cynnig technoleg amgen megis mynediad band eang di-wifr sefydlog, sy'n medru goresgyn

unrhyw heriau sy'n bodoli o ran cyflymder. Mae darparwyr bellach yn cael trafodaethau gyda thimau'r Cyngor ynghylch sefydlu cysylltiadau mynediad band eang di-wifr sefydlog a gallai hyn gael effaith gadarnhaol fawr ar y cysylltedd band eang.


Er gwaethaf hyn, ar hyn o bryd mae gan 40% o ganolbarth Cymru fynediad at gysylltiadau ffeibr i'r adeiladau, sy'n golygu bod modd lawrlwytho ar gyflymder o hyd at 1gbps (1000mbps). Mae'r ffigwr hwn unwaith eto'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (47%), ond mae'n uwch na'r ffigwr ar gyfer nifer o'r Awdurdodau Lleol mwy gwledig. Mae'r cyflymder yn uwch mewn Awdurdodau Lleol mwy poblog (e.e. Caerdydd lle mae'r ffigwr yn 68%).

Mae signal ffonau symudol hefyd yn waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r topograffi a dwysedd is y boblogaeth yn peri heriau penodol. Nid oes gan oddeutu 9% o adeiladau yn y rhanbarth unrhyw wasanaethau 4G, a dim ond 51% o'r adeiladau sydd â darpariaeth 4G gan y pedwar gweithredwr. Mae hyn yn cymharu â ffigwr o 73% ar gyfartaledd yng Nghymru ac 80% ledled y Deyrnas Unedig .

## Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym - a ydym wedi gwneud gwahaniaeth?


Mae llawer o gefnogaeth wedi'i darparu dros y 12 mis diwethaf.  Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddibynnu ar ddata cadarn i ddangos a ydym yn gwneud gwahaniaeth.  Mae ein dangosfyrddau data yn helpu is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fonitro effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarperir.  Mae'r dangosfyrddau hyn yn casglu data byw o wefannau cyrff megis yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac fe'u datblygwyd ymhellach yn ystod 2022-23.

### Credyd Cynhwysol




Bu cynnydd sydyn yn nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Ngheredigion ym mis Mawrth/Ebrill 2020, ar ddechrau'r pandemig. Rhwng Gorffennaf 2021 a Gorffennaf 2022, bu’r ffigwr yn gymharol sefydlog (tua 4,500) ond ar ôl hynny, dechreuodd gynyddu eto. Roedd y ffigwr ym mis Mawrth 2023 132% yn uwch na’r ffigwr ym mis Mawrth 2020.

## Nifer y bobl sy’n hawlio budd-daliadau




Mae'r ffigyrau hyn yn dangos nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf oherwydd eu bod yn ddi-waith. Hefyd, bu cynnydd yn y ffigurau hyn o fis Mawrth/Ebrill 2020 ymlaen. Er nad yw’r ffigyrau wedi dychwelyd i’r hyn ag yr oeddent cyn y pandemig, roedd y ffigwr ym mis Mawrth 2023 42% yn uwch na’r ffigwr ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn golygu, er bod pobl yn gweithio erbyn hyn, eu bod nhw’n dal yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol. Mae'n debygol mai tlodi mewn gwaith yw’r rheswm am hyn.


## Cyflogaeth Ieuenctid





Bu effaith Covid ar bobl ifanc yn bryder mawr ac rydym yn monitro nifer y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy’n hawlio budd-daliadau. Roedd y cohort hwn yn dilyn yr un duedd â'r ffigyrau cyffredinol ar gyfer nifer y bobl sy’n hawlio budd-daliadau a dechreuodd y sefyllfa wella rhywfaint ym mis Mehefin 2022. Fodd bynnag, dechreuodd y ffigyrau gynyddu eto ac ym mis Mawrth 2023, roedd 255 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn hawlio budd-daliadau. Mae’r ffigwr hwn 38% yn uwch na'r gyfradd cyn y pandemig.

## Enillion Blynyddol Canolrifol yn ôl Cartref a Gweithle

Mae'n ymddangos bod y bwlch enillion cyfartalog rhwng pobl sy'n byw yng Ngheredigion a phobl sy'n byw yng ngweddill Cymru yn lleihau. Fodd bynnag, nid yw'r bwlch enillion cyfartalog rhwng Ceredigion a gweddill Cymru yn ôl gweithle wedi lleihau. Caiff y duedd hon ei harchwilio ymhellach.





## Llesiant Corfforol ac Emosiynol

Ar gyfartaledd, 68 mlynedd yw’r disgwyliad oes iach i ddynion yng Ngheredigion a 70 mlynedd yw’r disgwyliad oes iach i fenywod. Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a’r lleiaf difreintiedig yng Ngheredigion yn 10.2 mlynedd i ddynion a 11.8 mlynedd i fenywod. Ardaloedd Teifi (Aberteifi) a Rhyd y Fuwch yw'r rhai mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion.

Mae'n anoddach mesur yr hyn sy’n cael effaith ar lesiant yn lleol.  Ers mis Mawrth 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu arolwg o farn y cyhoedd ar y Coronafeirws (COVID-19).  Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd pa mor bryderus oedd pobl am allu talu eu biliau ymhen y mis. Daeth yr arolwg hwn i ben ym mis Mai 2022 a byddai'n ddefnyddiol nodi dull arall o fesur pa mor hapus yw pobl yng Ngheredigion.

## Tlodi Plant

Yn olaf, bu gostyngiad mawr yn ffigyrau tlodi plant Ceredigion ar gyfer 2021-22 o gymharu â’r ffigurau yn 2020-21. Serch hynny, yn 2021-22, roedd 30% o blant yng Ngheredigion yn byw mewn tlodi. Nid yw ffigurau 2022-23 ar gael eto, a bydd y rhain yn dangos effaith yr argyfwng costau byw. Mae'n debygol iawn y gwelwn ni gynnydd.




Mae defnyddio data fel hyn yn rhywbeth parhaus. Wrth i ni ymchwilio mwy i achosion ac effeithiau tlodi, mae lefel ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar Geredigion yn parhau i gynyddu.

Gallwn weld hyn yn y gwaith sy'n ymwneud ag allgáu digidol sydd hefyd wedi'i amlygu ar lefel genedlaethol gan Archwilio Cymru, Cymunedau Digidol Cymru ac eraill.

Mae hyn yn golygu y gallwn ni dargedu ein gweithgareddau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y mannau lle mae eu hangen fwyaf a lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

## Y Casgliad a’r Heriau sy’n Parhau

Mae chwyddiant a chostau ynni yn creu pryderon newydd i denantiaid bregus. Mae'r ffaith bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth o’r cynlluniau cymorth costau byw hefyd yn broblem fawr.

Mae prinder llety fforddiadwy yng Ngheredigion yn creu problemau. Mae’r Ddeddf Rhentu Cartrefi sy’n ddeddfwriaeth newydd wedi cymhlethu'r materion hyn ymhellach.

Er y bu cynnydd sylweddol yn y gyllideb i ddarparu tai cymdeithasol fforddiadwy, bu hefyd anawsterau wrth chwilio am gontractwyr i wneud y gwaith.  Mae pryderon hefyd y bydd effaith y ffosffadau yn afon Teifi yn golygu y bydd oedi o ran ceisiadau cynllunio newydd.

Mae'r sector gofal plant yn parhau i wynebu trafferthion o ran costau gwresogi a recriwtio. Mae nifer y llefydd gofal plant wedi gostwng eto. Mae hyn yn effeithio ar allu pobl i gael mynediad at waith a hyfforddiant.

Mae modd i 98.9% o gartrefi Ceredigion fynd at Fanciau Bwyd yn lleol. Llwyddodd y banciau bwyd i ymdopi â'r galw cynyddol yn ystod y flwyddyn ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr.

Mae'n debygol bod tlodi mewn gwaith yn parhau’n broblem oherwydd mae nifer y bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn parhau’n uchel. Serch hynny, mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau oherwydd eu bod yn ddi-waith wedi lleihau.

Mae’r bwlch enillion cyfartalog rhwng pobl sy'n byw yng Ngheredigion a phobl sy'n byw yng ngweddill Cymru wedi lleihau. Ond nid yw'r bwlch enillion cyfartalog rhwng pobl sy'n gweithio yng Ngheredigion a phobl sy'n gweithio yng ngweddill Cymru wedi lleihau.

Mae cyfraddau tlodi plant wedi gostwng ond maent yn parhau’n uchel iawn. 30% oedd y ffigwr yn 2021-22. Nid yw ffigurau 2022-23 wedi'u cyhoeddi eto ond bydd y rhain yn dangos gwir effaith y cynnydd mewn costau byw.

Mae cysylltedd band eang yng nghanolbarth Cymru yn gwella ond ychydig sydd wedi newid o ran signal ffonau symudol. Mae Canolbarth Cymru y tu ôl i weddill Cymru a'r Deyrnas Unedig o ran y materion hyn.

## Y Camau Nesaf

1. Parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol caledi yng Ngheredigion trwy goladu a dadansoddi data.

2. Bydd is-grŵp Tlodi’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu cynllun gwaith gan sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn parhau’n fater trawsbynciol ar draws pob maes gwaith wrth gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28.

## Atodiad A: Y Partneriaid sy'n Cyfrannu

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Partneriaethau, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyngor Sir Ceredigion - Porth Cymorth Cynnar, Llesiant a Dysgu Cymunedol
- Cyngor Sir Ceredigion - Cyllid a Chaffael
- Area 43
- Cyngor Sir Ceredigion - Porth Cynnal
- Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd Ceredigion
(Y Borth, Llandysul, Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron)
- Cyngor Sir Ceredigion - Porth Gofal
- Y Gymdeithas Gofal
- Cyngor Sir Ceredigion - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
- Cyngor Sir Ceredigion - Economi ac Adfywio
- Cyngor Sir Ceredigion - Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
- Cyngor Sir Ceredigion - Cyswllt Cwsmeriaid
- Cyngor Sir Ceredigion - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- DASH Ceredigion
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Coleg Ceredigion
- Cyngor ar Bopeth Ceredigion
- Fforwm Cymunedol Penparcau
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
- Age Cymru Dyfed
- Prifysgol Aberystwyth

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **07/11/2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol mewn perthynas â diweddariad am gynnydd a gafwyd ynghylch Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-2023 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a'i Hadroddiad Blynyddol.** |

**Cefndir:**
Bu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystyried diweddariad am gynnydd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-2023 Bwrdd Cyhoeddus Ceredigion a'i Hadroddiad Blynyddol.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod yr Awdurdod wedi cyflawni amcanion y strategaeth. Dywedwyd bod yr is-grŵp Tlodi wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi trafod ystod eang o faterion i'w helpu i ddeall effaith caledi ar ddinasyddion Ceredigion, a bod y dangosfyrddau data a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio'n eang gan bartneriaid ac wedi'u cydnabod ledled Cymru fel enghraifft o arferion da.

Roedd y cynllun gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi ac adroddiadau rheolaidd wedi helpu Swyddogion i gydlynu'r camau gweithredu. Roedd tudalen we'r Costau Byw ar wefan y Cyngor a thaflen y Costau Byw, a bostiwyd i holl godau post Ceredigion yn ystod gaeaf 2022, wedi helpu i hyrwyddo'r help a'r cymorth sydd ar gael. Mae bylchau yn y cymorth wedi'u nodi ac, er nad oeddent yn gallu mynd i'r afael â'r holl fylchau hyn, dywedodd Swyddogion eu bod wedi gallu ymateb i rai, er enghraifft, y rhwydwaith o 54 o Fannau Croeso Cynnes a oedd yn cynnig lle cynnes a chyfeillgar i gymunedau ddod ynghyd yn ystod gaeaf 2022.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn trafodaeth, mae Aelodau'r Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn:

1. Derbyn ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-2023.

Cytunwyd hefyd i anfon e-bost at Glerc wardiau'r Cynghorau Cymuned nad ydynt wedi'u cwmpasu gan fanciau bwyd sef Llandyfrïog, Llanddewi Brefi, Tregaron ac Ystrad Fflur am y broses o sefydlu'r banciau hyn yn eu Ward.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
Mae'r adroddiad yn ddisgrifiad cywir o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar drigolion Ceredigion.

**Y Cynghorydd Rhodri Evans**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol***